# Polisi Cyffuriau 2020




SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Cynnwys


3 Rhagair

4 Trosolwg o Ddefnydd Cyffuriau yng Ngogledd Cymru

5 Argymhellion

1. Dulliau Dargyfeirio:
1.2. Checkpoint Cymru
1.3. Rhaglen Addysg Cyffuriau

2. Darpariaeth o Nacsolon
2.1. Swyddogion yng Ngogledd Cymru yn cario Nalocson
2.2. Nalocson yn y Ddalfa

3. Triniaeth a Chymorth Heroin
3.1. Cael gwared a'r Farchnad Gyffuriau

4. Profi Cyffuriau
4.1. Economi'r nos a Gwyliau

5. Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau
5.1. Beth yw Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau (YDC)?
5.2. Beth yw manteision YDC?
5.3. Pam nad oes unrhyw YDC (DCR) swyddogol yn y DU?

# Rhagair

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru rwyf wedi gweld yr effaith drychinebus y gall defnyddio cyffuriau a dibyniaeth ei chael ar unigolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae parhau i droseddoli pobl sy'n gaeth i gyffuriau yn fethiant ac mae'n bryd i gaethiwed i gyffuriau gael ei ystyried yn fater iechyd cyhoeddus ac nid yn fater cyfiawnder troseddol.

Mae'r ffigyrau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru a Lloegr wedi parhau i godi gyda 4359 o unigolion yn colli eu bywydau oherwydd gwenwyno cyffuriau yn 2018 sy'n gynnydd o 16% o'r flwyddyn flaenorol. Yng Nghymru achoswyd 50% o'r marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau gan opioidau sy'n cynnwys heroin a morffin. Bydd y ffigurau hyn yn parhau i godi wrth i sylweddau anghyfreithlon ddod yn fwyfwy grymus yn nwylo trosedd trefnedig[1].

Profwyd bod dulliau dargyfeiriol sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiad troseddol yn lleihau aildroseddu ac yn rhoi'r sgiliau i unigolion fyw bywyd normal. Mae'r egwyddorion hyn hefyd wedi llwyddo i fynd i'r afael â dibyniaeth ar gyffuriau a'r materion ehangach sy'n ymwneud â defnyddio cyffuriau.

Mae'r rhai sydd wedi ymwreiddio mewn defnyddio cyffuriau yn aml yn byw bywydau caotig sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gael mynediad at wasanaethau a chymorth. Mae Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau a Thriniaeth a Chymorth Heroin yn rhoi lleoliad penodol i'r unigolion hyn lle gallant nid yn unig gymryd eu cyffuriau neu dderbyn heroin ond hefyd gallant gael gafael ar wasanaethau tai, cwnsela a meddygol.




**Arfon Jones**, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Ni all mesurau dargyfeiriol yn unig ddileu'r defnydd o sylweddau anghyfreithlon a dyna pam y bydd y polisi hwn yn nodi pum argymhelliad i ymdrechu i amddiffyn a chynorthwyo'r unigolion mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Yr argymhellion yw:

1. **Dulliau Dargyfeirio**
2. **Darpariaeth o Nacsolon**
3. **Triniaeth a Chymorth Heroin**
4. **Profi Cyffuriau - Gwyliau ac Economi'r Nos.**
5. **Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau**

[1]https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsrelatedtodrugpoisoninginenglandandwales/2018registrations **Defnyddiwyd 27/07/20**


# Trosolwg o Ddefnydd Cyffuriau yng Ngogledd Cymru

Mae'r defnydd o gyffuriau yng Ngogledd Cymru wedi'i leoli'n bennaf ar hyd yr arfordir ac yn ardal Wrecsam a'r cyffiniau ond mae'n effeithio ar bob rhan o Ogledd Cymru. Mae agosrwydd at Ogledd Orllewin Lloegr wedi arwain at grwpiau trosedd trefnedig yn ymestyn eu busnesau i Ogledd Cymru gyda nifer fawr o linellau cyffuriau yn rhedeg ar draws y rhanbarth ond mae gwerthwyr cyffuriau lleol hefyd yn defnyddio trais a bygythiadau i sicrhau bod ganddynt rywfaint o reolaeth dros y farchnad.

Amcangyfrifir bod marchnad gyffuriau Gogledd Cymru yn cael £32miliwn bob blwyddyn, gan arwain at gam-fanteisio ar lawer o bobl fregus. Mae plant yn cael eu gorfodi i ddelio â chyffuriau a cham-fanteisio rhywiol, mae pobl sydd â dibyniaeth ar gyffuriau yn cael eu gorfodi a'u cam-drin, mae teuluoedd yn cael eu dinistrio; mae ufuddhau yn cael ei sicrhau gyda bygythiadau o drais difrifol.[2]

Mae'n bwysig ein bod yn amddiffyn ac nid yn cosbi'r oedolion a'r plant bregus y mae grwpiau trosedd trefnedig yn manteisio arnynt.

Mae'r map digwyddiadau isod yn dangos pa mor eang yw'r defnydd o gyffuriau yng Ngogledd Cymru. Mae'n effeithio ar bob un o'n cymunedau. Yn ogystal, mae cymunedau ag ardaloedd o ddefnydd cyffuriau uchel yn profi lefelau uwch o sbwriel ag offer cyffuriau.




*Data sbwriel cyffuriau Heddlu Gogledd Cymru 01/04/2019-31/03/2020*

[2]Asesiad Anghenion Llinellau Cyffuriau Amlasiantaethol Gogledd Cymru, 2019. t45

# Argymhellion

## 1. DULLIAU DARGYFEIRIO:

**1.1.** Profwyd bod dulliau dargyfeiriol sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiad troseddol yn lleihau aildroseddu ac yn rhoi'r sgiliau i unigolion fyw bywyd normal. Unwaith y bydd unigolion wedi ymuno â'r System Cyfiawnder Troseddol, mae'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu yn cynyddu. Yn ôl Cyfraddau Aildroseddu Profedig Ystadegau Gwladol, mae 36.7% o oedolion sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa neu orchmynion llys cychwynnol yn debygol o aildroseddu, gyda'r rhai a ryddhawyd o ddedfrydau o garchar o hyd at 12 mis 62.7% yn debygol o aildroseddu.[3]

### 1.2. Checkpoint Cymru

Ym mis Rhagfyr 2019 lansiwyd rhaglen dargyfeirio Checkpoint Cymru yng Ngogledd Cymru. Mae Checkpoint Cymru yn dargyfeirio unigolion oddi wrth y System Cyfiawnder Troseddol drwy ddarparu ymyriad dwys o 16 wythnos. Fel rhan o'r rhaglen mae'r Llywiwyr yn gweithio gyda'r unigolyn i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sylfaenol fel camddefnyddio sylweddau, materion ariannol neu faterion tai.

### 1.3. Rhaglen Addysg Cyffuriau

Lansiwyd y Rhaglen Addysg Gyffuriau (DEP) ochr yn ochr â Checkpoint Cymru i roi cyfle i ddefnyddwyr cyffuriau hamdden sydd wedi eu dal â sylweddau




i'w defnyddio'n bersonol, i fynychu'r rhaglen er mwyn atal derbyn cofnod troseddol. Mae'r DEP yn ymyriad 4 awr sy'n gwneud i gyfranogwyr feddwl a thrafod eu rhesymau dros ddefnyddio cyffuriau, sut mae'n effeithio arnynt eu hunain, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach a'r canlyniadau pe na bai'r DEP wedi bod ar gael iddynt. Ar ddiwedd y sesiwn mae gan bob cyfranogwr sesiwn un i un gyda'r Llywiwyr i drafod cymorth pellach, materion ychwanegol a sut y byddant yn symud ymlaen.

## ARGYMHELLIAD

*Cynlluniau dargyfeiriol i barhau i leihau nifer yr unigolion sy'n cael eu tynnu i mewn i gylch troseddu.*

[3] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/872390/bulletin_Jan_to_Mar_2018.pdf **Accessed 24/07/20**

## 2. DARPARIAETH O NACSOLON

Mae Nalocson yn wrthgyffur brys sy'n gwrthdroi iselder anadlol oherwydd gorddos o opioidau. Mae'n gweithio drwy lynu dros dro at dderbynyddion yr opioid yn yr ymennydd a'r corff ac yn gwrthweithio effeithiau'r opioidau. Gellir rhoi Nalocson i unrhyw un, heb bresgripsiwn, er mwyn achub bywyd mewn argyfwng. Yn unol â chanllawiau clinigol, darperir hyfforddiant a chyngor i'r rhai sy'n derbyn Nalocson, sydd fel arfer yn cymryd 5-10 munud. Unwaith y bydd Nalocson wedi'i roi, bydd yn para tua 20 munud ar ôl cael ei ddefnyddio ac mae gofal dilynol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwenwyno yn cael ei atal ar ôl hyn.

### 2.1. Swyddogion yng Ngogledd Cymru yn cario Nalocson

Mae nifer o ddadleuon o blaid ac yn erbyn darparu Nalocson i swyddogion, ond y ddadl fwyaf arwyddocaol yw lleihau nifer y bywydau sy'n cael eu colli oherwydd gorddos o gyffuriau. Mae adegau pan mai'r heddlu yw'r ymatebwyr cyntaf i ddigwyddiad gorddos, gallai aros am gymorth meddygol i roi Nalocson arwain at orddos angheuol.

Dadleuon o blaid swyddogion yn cario Nalocson

1. **Achub bywydau**
2. **Lleihau'r galw**
3. **Amddiffyniad ychwanegol i swyddogion**

### ACHUB BYWYDAU

Gan mai'r heddlu yw'r cyntaf mewn lleoliad yn ystod gorddos, efallai mai nhw yw'r bobl gyntaf neu'r unig bobl sydd ar gael i achub bywyd. Achub bywydau yw prif ddiben Nalocson. Mae darn diweddar o ymchwil academaidd (nad yw wedi'i gyhoeddi eto) wedi nodi bod dros 75% o swyddogion yr heddlu a'r SCCH yn cefnogi cario Nalocson. Maent yn cefnogi'r cynnig i sicrhau y gallant weithredu'n gyflym os ydynt ar safle gorddos yn gyntaf.

### LLEIHAU'R GALW

Gall Naloxone leihau'r galw ar swyddogion yn y tymor byr drwy osgoi'r adnoddau sydd angen i ddiogelu lleoliad marwolaeth yn ymwneud â chyffuriau ac archwilio'r amgylchiadau. Hefyd, wedi i'r gwasanaethau meddygol gyrraedd yn y lleoliad ni fydd angen i'r swyddogion fod yno os na fydd yr unigolyn yn troi'n dreisgar. Mewn rhai achosion wedi i Naloxone gael ei roi mae'n achosi effeithiau ymwrthod â chyffuriau sy'n gadael rhai yn aflonydd ac angen cymorth o bosib.

Gall Naloxone leihau'r galw ar swyddogion yn y tymor hir gan ei fod wedi ei brofi i gynyddu ymgysylltiad â thriniaeth pan gaiff ei ddefnyddio neu pan mae ar gael. Fel y dangoswyd yn y Treialon Triniaeth a Chymorth Heroin yn 2008 unwaith y bydd unigolion yn ymrwymo i wasanaethau, mae lefel y troseddau caffael yn yr ardal honno yn lleihau'n sylweddol.

### AMDDIFFYN SWYDDOGION HEDDLU

Os bydd swyddogion yn mynychu lleoliad lle mae Ffentanyl yn bresennol, yn enwedig os yw gronynnau yn yr aer, gall cydweithwyr sy'n cario pecynnau Nalocson rwystro unrhyw dan ddylanwad (sy'n gallu bod yn angheuol ac sydd wedi bod yn America) gan gydweithwyr sy'n cario offer Nalocson.

Mae lles swyddogion yn cael ei effeithio drwy fod yn dyst i unrhyw farwolaeth, ond yn arbennig os yw'r farwolaeth yn gallu cael ei atal. Gall Nalocson sicrhau swyddogion bod ganddynt yr offer i weithredu mewn argyfwng.

Gall hefyd osgoi unrhyw ymchwiliad dan oruchwyliaeth yr Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i 'farwolaeth ar ôl cyswllt a'r Heddlu'.







## 2.2. Nalocson yn y Ddalfa

Mae Nalocson ar gael ym mhob un o'r tair dalfa ar draws ardal Heddlu Gogledd Cymru. Mae chwistrellau wedi'u llenwi ymlaen llaw o Prenocad sy'n chwistrelliad Cyhyrol Nalocson sy'n cael ei weinyddu'n gyffredinol gan nyrs neu staff hyfforddedig y ddalfa. Bydd chwistrelliad trwynol Nalocson o'r enw Nyxoid hefyd ar gael yn y ddalfa unwaith y bydd hyfforddiant wedi'i roi. Rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Gorffennaf 2020 rhoddwyd Nalocson yn y ddalfa yng Ngogledd Cymru chwe gwaith.

### ARGYMHELLIAD

*Cynhelir gwerthusiad ar y cynllun peilot presennol o Swyddogion Heddlu yn cario Nalocson. Os ystyrir yn llwyddiannus, dylai'r cynllun peilot gael ei ymestyn ledled yr heddlu er mwyn sicrhau fod gan bob swyddog y gallu i atal marwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau. Dylid ystyried bod nyrsys y ddalfa yn cael y cyfle i ddarparu Nalocson i'w Ddefnyddio Gartref i ddefnyddwyr opiad hysbys mewn perygl o gael gorddos.*

## 3. TRINIAETH A CHYMORTH HEROIN

Mae Triniaeth â Chymorth Heroin (HAT) yn ymdriniaeth iechyd cyhoeddus i drin unigolion sydd â dibyniaeth tymor hir ar opioidau sydd wedi methu ymateb i driniaethau eraill. Mae cleifion yn dod i glinig arbenigol hyd at ddwywaith y diwrnod i dderbyn a chymryd eu presgripsiwn o dan oruchwyliaeth staff sydd wedi hyfforddi'n feddygol.

Mae HAT yn darparu clinig dynodedig i ddefnyddwyr caotig lle maent yn derbyn eu presgripsiwn heroin ac â mynediad at wasanaethau a chymorth iechyd. Mae'r rhai hynny sy'n gymwys am HAT fel arfer yn byw bywyd caotig lle mae mynediad at wasanaethau cymorth ac iechyd yn gyfyngedig. Drwy fynd i glinig bob dydd yn cael mynediad rheolaidd at weithwyr proffesiynol iechyd, gwasanaethau tai a gwasanaethau cymorth.

Mae'r rhai hynny sy'n gaeth ac yn annhebygol o wella yn treulio eu dyddiau yn chwilio am eu dos nesaf ac yn methu cael bywydau normal. Mae HAT yn disodli'r angen i ddod o hyd i'w dos nesaf ac yn caniatáu cleifion i ddechrau triniaeth a dychwelyd yn raddol at fyw bywyd sefydlog.

### 3.1. Cael gwared a'r Farchnad Gyffuriau

Ar hyn o bryd, mae'r farchnad gyffuriau anghyfreithlon yng Nghymru a Lloegr yn costio £20biliwn i'n cymdeithas gyda £10.7 biliwn o'r hyn yn gysylltiedig â throseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Amcangyfrifir bod 45% o droseddau caffael yn cael eu cyflawni gan ddefnyddwyr heroin a chrac yn y DU. Bydd HAT yn dileu'r elfen gost i gaethiwed y claf a bydd yn lleihau elw grwpiau troseddu cyfundrefnol yn yr ardal.

Digwyddodd y Treial Triniaeth Chwistrellu Opiadau ar Hap mewn tair ardal beilot ledled Lloegr. Roedd 40 o unigolion yn rhan o'r treial ac roedd pob un ohonynt yn adnabyddus i'w heddluoedd lleol. Roedd yn hysbys bod y 40 unigolyn dan sylw wedi cyflawni 1731 o droseddau yn y 30 diwrnod cyn y treial.Gostyngwyd y ffigur hwn ddwy ran o dair ar ôl i'r cleifion fod yn rhan o HAT am chwe mis. Byrgleriaethau yw un o'r troseddau mwyaf cyffredin a gyflawnir gan ddefnyddwyr heroin. Yn y Swistir gostyngodd nifer y byrgleriaethau 40% oherwydd bod eu defnyddwyr heroin mwyaf sefydledig yn cael eu cynnwys yn y rhaglen HAT.

Yn 2019 dechreuodd Heddlu Cleveland HAT gydag 20 o'u carfan gynhyrchiol o ddefnyddwyr heroin. Amcangyfrifir bod yr unigolion hyn yn costio dros £800,000 y flwyddyn i bwrs y wlad oherwydd eu bod yn gaeth i heroin. Cyfrifwyd y ffigur hwn gan ddefnyddio'r troseddau hysbys gan yr unigolion hyn y bydd y nifer gwirioneddol yn sylweddol uwch.

## ARGYMHELLIAD

*Codi ymwybyddiaeth o fanteision Triniaeth a Chymorth Heroin i gael cefnogaeth gan y Bwrdd Cynllunio Ardal, y Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol i alluogi sefydlu cynllun peilot yng Ngogledd Cymru.*

## 4. PROFI CYFFURIAU

### 4.1. Economi'r nos a Gwyliau

Mae'r cryfder a'r cynhwysion anhysbys a ddefnyddir mewn sylweddau anghyfreithlon wedi arwain at lawer o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn economi'r nos a gwyliau. Yn 2018 bu cynnydd o 64% yn nifer y marwolaethau a achoswyd gan ecstasi yng Nghymru a Lloegr o gymharu â 2017. Defnyddir Ecstasi yn rheolaidd o fewn lleoliad economi'r nos ac mewn gwyliau ledled y wlad. Gall profi cyffuriau roi gwybodaeth i unigolion am gryfder a grymus y sylwedd y maent wedi'i brynu a all yn ei dro achub bywydau.

Mae LOOP UK a sefydlwyd yn 2013 yn darparu gwasanaethau profi cyffuriau ledled y sir a'i nod yw achub bywydau, lleihau niwed a rhoi'r dewis i bobl wybod pa gyffuriau y maent yn eu cymryd. Prif ffocws profi cyffuriau yw:

- Adnabod tueddiadau yn y farchnad gyffuriau
- Adnabod sylweddau sy'n peri pryder a allai roi defnyddwyr ar lefel uwch o risg
- Adnabod cynnwys sylweddau sydd eisoes yn destun pryder, er enghraifft, unigolion yn mynd yn sâl oherwydd swp gwael o sylweddau.

Mae yna garfan sy'n ystyried bod profi cyffuriau yn cefnogi ac yn esgusodi unigolion i gymryd sylweddau a dyna pam nad yw'n cael ei ddefnyddio'n eang ledled y DU. Mae pwysigrwydd achub bywyd rhywun drwy adnabod sylweddau peryglus yn llawer pwysicach na'r dybiaeth bod profi cyffuriau yn cefnogi defnyddio cyffuriau.




## ARGYMHELLIAD

*Dylai profi cyffuriau ddod yn rhan arferol o ddiwylliant economi'r nos a gwyliau yng Ngogledd Cymru i leihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.*

## 5. YSTAFELLOEDD DEFNYDDIO CYFFURIAU

### 5.1. Beth yw Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau (YDC)?

Cyfleusterau yw Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau sy'n rhoi amgylchedd glân a diogel i ddefnyddwyr cyffuriau chwistrellu eu cyffuriau eu hunain, o dan oruchwyliaeth feddygol.

### 5.2. Beth yw manteision YDC?


Mae'r YDC yn darparu amgylchedd diogel i unigolion sy'n byw bywydau caotig fel pobl sy'n cysgu ar y stryd ac yn darparu mynediad at wasanaethau. Mae YDC yn rhoi'r canlynol i unigolion sy'n defnyddio cyffuriau:

- Offer chwistrellu glan
- Lleoliad glan i ddefnyddio cyffuriau
- Ymarferwyr meddygol wrth law i ddarparu gofal meddygol a gofal brys pe bai argyfwng
- Mynediad ychwanegol at wasanaethau cefnogol fel cwnsela a thai.

### 5.3. Pam nad oes unrhyw YDC (DCR) swyddogol yn y DU?

Mae Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn atal cyflwyno ystafell defnyddio cyffuriau yn y DU  oherwydd bod meddiant o sylweddau anghyfreithlon y DU yn drosedd felly byddai pawb sy'n rhan o hyn yn troseddu.  Cafwyd nifer o ddadleuon yn ystod y blynyddoedd diwethaf ynghylch manteision ystafelloedd defnyddio cyffuriau fodd bynnag; mae Llywodraeth y DU yn parhau i wrthod gwneud unrhyw newidiadau i'r gyfraith.

Ym mis Medi 2020, sefydlodd Peter Krykant gyfleuster defnyddio cyffuriau symudol yn Glasgow. Mae gan y ddinas un o'r cyfraddau marwolaethau uchaf sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn Ewrop gyda thua 500 o ddefnyddwyr sy'n chwistrellu. Mae Llywodraeth y DU wedi rhyddhau datganiad yn gwrthod cefnogi'r rhaglen ac yn parhau i ddweud bod ei bodolaeth yn anghyfreithlon ac y gallai arwain at arestio ei hwylusydd. Fodd bynnag, mae'r AS a Chynghorwyr lleol yn llwyr gefnogi'r rhaglen gan eu bod yn credu bod y ddinas wedi cyrraedd argyfwng iechyd cyhoeddus. Nid yw'r heddlu yn yr Alban wedi ymyrryd â'r cyfleuster eto er iddynt batrolio ardal y fan o bryd i'w gilydd.



## ARGYMHELLIAD

*Parhau i godi ymwybyddiaeth, ennill cefnogaeth a newid barn er mwyn cyflawni'r prif nod o newid y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn gallu gweithredu Ystafelloedd Defnyddio Cyffuriau yn y DU.*

@NorthWalesPCC

www.nwpcc.cymru

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES